**Julie James AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni**
**Counsel General and Minister for Delivery**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

9 Ionawr 2025

Annwyl Cadeirydd,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Rhagfyr ynghylch Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar Ddeddfwriaeth y DU mewn meysydd datganoledig. Cewch hyd i'r atebion i'ch cwestiynau yn yr Atodiad isod.

Yn eich llythyr, fe wnaethoch ofyn am ragor o wybodaeth am y newidiadau penodol a wnaed i'r egwyddorion. Yn fy llythyr dyddiedig 4 Rhagfyr, disgrifiais y prif newidiadau a wnaed i'r egwyddorion. Rwyf wedi gofyn i fy swyddogion gysylltu â'ch swyddogion chi ynglŷn ag unrhyw eglurder pellach sy'n ddefnyddiol yn hyn o beth.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
correspondence.Counsel.General@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad A**

**Cwestiwn 1: Yn ei Adroddiadau Blynyddol ar gyfer 2021/22 a 2022/23, dywedodd y Pwyllgor fod egwyddorion Llywodraeth Cymru ar ddeddfwriaeth y DU mewn meysydd datganoledig yn "ddiffygiol", gan fod yr elfen graidd (o ddefnyddio Biliau Llywodraeth Cymru i ddeddfu) yn destun esemptiad cyffredinol sy'n "tanseilio effaith" yr egwyddor honno. Sut y mae'r egwyddorion ar eu newydd wedd yn mynd i'r afael â'r pryder hwn?**

Nid wyf yn cytuno â'r farn bod yr egwyddorion yn ddiffygiol. Mae'r egwyddorion yn dangos yr ystyriaethau yr ydym yn eu hystyried wrth ddod i safbwyntiau ar ddeddfwriaeth y DU.

At ddibenion y broses cydsyniad deddfwriaethol, mae'n gwbl briodol i Lywodraeth Cymru wneud argymhelliad i'r Senedd ynghylch cydsynio, gan gynnwys yr hyn yr ydym yn ei ystyried i fod er budd gorau Cymru. Yn wir, mae Rheol Sefydlog 29 yn ei gwneud yn ofynnol i femoranda cydsyniad deddfwriaethol egluro a yw'r ddarpariaeth berthnasol yn cael ei hystyried yn briodol. Mater i'r Aelodau yw penderfynu a ydynt am dderbyn y rhesymeg a gyflwynwyd gan y Llywodraeth ai peidio wrth iddynt ystyried cynigion cydsyniad deddfwriaethol.

**Cwestiwn 2: Pa ffactorau sydd wedi dylanwadu ar y broses o newid yr egwyddorion?**

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r egwyddorion diwygiedig yn cefnogi cysondeb a thryloywder. Rydym wedi achub ar y cyfle i ddiwygio elfennau penodol, fel yr amlygwyd yn fy llythyr dyddiedig 4 Rhagfyr, i sicrhau bod ein safbwyntiau'n glir.

**Cwestiwn 3: Mae'r egwyddorion ar eu newydd wedd yn nodi y gallai sefyllfaoedd godi pan fydd "er budd gorau i Gymru" fod darpariaethau mewn meysydd datganoledig yn cael eu cynnwys mewn deddfwriaeth y DU. A fyddai modd i chi amlinellu'r meini prawf a fydd yn cael eu defnyddio i wneud yr asesiad hwnnw, pa rôl yr ydych yn rhagweld y bydd gan y Senedd o ran llywio'r asesiad hwnnw, a phwy fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol cyn gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol?**

Bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried amrywiaeth o faterion perthnasol, gan gynnwys ystod eang o ffactorau cyfansoddiadol, ffactorau o ran polisi a chyflawni a ffactorau eraill.

Fel y nodwyd uchod, mater i'r Aelodau wedyn yw penderfynu a ydynt am dderbyn y rhesymeg a gyflwynwyd gan y Llywodraeth ai peidio wrth iddynt ystyried cynigion cydsyniad deddfwriaethol.

Ar lefel gyffredinol, gwneir penderfyniadau ynghylch a ddylid argymell cydsyniad gan y Gweinidog(ion) ar gyfer y portffolio perthnasol, a hynny gan ystyried egwyddorion Llywodraeth Cymru. Mae'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, ac yn y pen draw, y Prif Weinidog, yn goruchwylio'r broses ac yn cymryd rhan fel y bo'n briodol.

**Cwestiwn 4: Pam na wnaethoch chi greu cyfres o egwyddorion ar wahân ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth mewn meysydd datganoledig, o ystyried y ffaith bod amrywiadau rhwng prosesau cydsynio'r Senedd ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol a'i phrosesau ar gyfer is-ddeddfwriaeth, a'r ffaith bod y broses gydsynio ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth, mewn rhai achosion, yn digwydd rhwng y Llywodraethau?**

Fel y nodwyd yn flaenorol, rwyf o’r farn y bydd mynegi un dull symlach o ymdrin â holl ddeddfwriaeth y DU yn helpu i sicrhau cysondeb a thryloywder. Mae'r egwyddorion nid yn unig yn cefnogi gwaith craffu'r Senedd ar ddulliau Gweinidogion Cymru, ond hefyd yn mynegi'n glir safbwynt Gweinidogion Cymru i'r cyhoedd yn ehangach.

Gellir cymhwyso'r egwyddorion yn glir i ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth yn ôl yr angen.

**Cwestiwn 5: O ystyried bod yr egwyddorion yn egwyddorion cyffredinol, ond eu bod bellach yn berthnasol i fwy o gategorïau o ddeddfwriaeth y DU sy’n destun prosesau cydsynio gwahanol, a fyddai modd i chi egluro sut y daethoch i’r farn bod yr egwyddorion ar eu newydd wedd yn fwy tryloyw?**

Dyma'r tro cyntaf inni gyhoeddi ein safbwynt ynghylch deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth. Wrth wneud hynny, ac wrth geisio ymgysylltu â'r Senedd a Llywodraeth y DU ar y gwaith hwn, credaf ein bod wedi cyflwyno cyfres o egwyddorion sy'n dryloyw ac yn glir.

**Cwestiwn 6: A fyddai modd i chi ddarparu dadansoddiad ynghylch pa elfennau newydd o'r egwyddorion ar eu newydd wedd sydd wedi cael eu hychwanegu i’w cymhwyso i is-ddeddfwriaeth, a fydd bellach yn cael eu cymhwyso i ddeddfwriaeth sylfaenol am y tro cyntaf?**

Nid oes unrhyw elfennau newydd sylweddol y tu hwnt i'r rhai a nodwyd gennyf yn fy llythyr dyddiedig 4 Rhagfyr.

**Cwestiwn 7: Sut mae’r egwyddorion ar eu newydd wedd yn gyson â Chonfensiwn Sewel?**

Mae Confensiwn Sewel yn darparu na fydd Senedd y DU fel arfer yn deddfu mewn perthynas â materion datganoledig heb gydsyniad y Senedd. Mae ein hegwyddorion yn llywio ein hargymhellion i'r Senedd ynghylch a ddylid rhoi cydsyniad deddfwriaethol, a'n safbwynt ni yw bod rhaid parchu barn y Senedd.

**Cwestiwn 8: Pryd y cytunodd Cabinet Llywodraeth Cymru ar yr egwyddorion ar eu newydd wedd? Pryd y dechreuodd Llywodraeth Cymru eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau am ddeddfwriaeth?**

Cwblhawyd yr egwyddorion ar eu newydd wedd a chytunwyd arnynt yn ystod mis Tachwedd 2024. Mae ein dull o ymdrin â deddfwriaeth y DU wedi ystyried yr egwyddorion ar eu newydd wedd ers eu cyhoeddi.

**Cwestiwn 9: Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, gwnaethoch sôn am eich sgyrsiau â Llywodraeth y DU ynghylch yr egwyddorion a gaiff eu derbyn ganddi. (i) Pam roeddech o’r farn bod angen gwneud hyn? (ii) Beth yw disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran sut y gallai hyn effeithio ar ddull Llywodraeth y DU o ddeddfu mewn meysydd datganoledig? (iii) Beth yw goblygiadau hirdymor ceisio cytundeb Llywodraeth y DU, ac a ydych yn rhagweld y bydd hyn yn digwydd ar ddechrau pob Senedd newydd a phob Senedd newydd yn y DU?**

Fel y trafodwyd yn y Pwyllgor, mae budd clir i sicrhau bod Llywodraeth y DU yn ymwybodol o'n hegwyddorion ar ddeddfwriaeth y DU. Credaf y bydd hyn o fudd pellach i'r gwelliannau yr ydym wedi bod yn eu gweld wrth ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar ei rhaglen ddeddfwriaethol. Drwy dynnu sylw at ein hegwyddorion, gellir eu hystyried ar gamau cynharaf y gwaith o ddatblygu deddfwriaeth yn Llywodraeth y DU, ac felly gall ymgysylltu fod yn fwy penodol ac yn fwy seiliedig ar wybodaeth.

**Cwestiwn 10: Mae’r iaith a ddefnyddir yn y pwynt bwled cyntaf ym mharagraff 3 wedi newid. Yn yr egwyddorion gwreiddiol, defnyddir y geiriau “…ond nad oes amser ar gael i gyflwyno darpariaethau tebyg yn y Senedd”; yn yr egwyddorion ar eu newydd wedd, defnyddir y geiriau “…ond na fyddai’n bosibl fel arall i ddarpariaeth a wneir yng Nghymru gael ei chyflawni yn unol ag amserlen addas”. Beth yw’r rhesymeg y tu ôl i’r newid hwn? Beth yw “amserlen addas”?**

Mae hyn yn enghraifft ohonom yn ceisio gwella eglurder. Bydd achosion pan y gallai darpariaeth a wneir yng Nghymru fod yn bosibl, ond na fyddai'r amserlen gymaradwy â deddfwriaeth y DU yn addas i'r sefyllfa. Bydd yr asesiad o amserlenni yn ystyried natur y cynigion deddfwriaethol penodol, a'r gofynion o ran polisi a chyflawni.

**Cwestiwn 11: Pam mae’r cyfeiriad at “rhaid” wedi cael ei ddileu yn y pedwerydd bwynt bwled, a pha feini prawf a ddefnyddir i benderfynu a fydd defnyddio deddfwriaeth y DU yn hwyluso’r broses o gyflawni amcanion polisi “yn y ffordd fwyaf effeithiol”?**

Roedd hwn yn eglurhad drafftio, gan gydnabod nad oedd "rhaid" yn y cyd-destun hwn yn cynrychioli'n glir y sefyllfa a ddisgrifir yn yr egwyddor.

Fel y nodwyd uchod, bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried amrywiaeth o faterion perthnasol, gan gynnwys ystod eang o ffactorau cyfansoddiadol, ffactorau o ran polisi a chyflawni a ffactorau eraill.

**Cwestiwn 12: Pam fod y sefyllfa enghreifftiol o dan baragraff 3 yn yr egwyddorion gwreiddiol, lle byddai pwerau Gweinidogion Cymru yn cael eu hymestyn mewn ffordd na ellid ei chyflawni drwy Ddeddf gan Senedd Cymru, wedi cael ei dileu o’r egwyddorion ar eu newydd wedd? A yw safbwynt Llywodraeth Cymru ar y mater hwn wedi newid?**

Nid yw safbwynt sylfaenol Llywodraeth Cymru wedi newid ond ni theimlwyd bod angen cynnwys hyn fel enghraifft.

**Cwestiwn 13: A fyddai unrhyw un o’r meini prawf a nodir ym mharagraff 4 o’r egwyddorion ar eu newydd wedd yn cael eu hystyried yn ‘llinell goch’ gan Lywodraeth Cymru, i’r graddau na fyddai’n gallu argymell cydsyniad o dan unrhyw amgylchiadau?**

Rydym wedi cymhwyso'r egwyddorion gwreiddiol mewn modd cadarn, ac rydym yn bwriadu parhau i wneud hynny gyda'r egwyddorion hyn ar eu newydd wedd i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i Gymru.

**Cwestiwn 14: Beth yw'r sail resymegol dros gynnwys y meini prawf ychwanegol a nodir ym mharagraff 4 o'r egwyddorion ar eu newydd wedd, sef os bydd Gweinidogion Cymru yn cytuno ar greu pwerau cydredol, dylai pwerau o'r fath fod yn ddarostyngedig i'r mecanweithiau cydsynio perthnasol ac i'r eithriadau cysylltiedig o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006? Oni fyddai'n gliriach pe bai'r safbwynt ynghylch gwrthwynebu'r arfer o greu pwerau cydamserol yn cael ei gynnal?**

Mae geiriad yr adran hon yn adlewyrchu dull egwyddorol a phragmatig o ymdrin â phwerau cydamserol, gan dynnu ar brofiadau blaenorol o ddeddfwriaeth y DU. Fe'i mynegir fel hyn yma at ddibenion tryloywder a chydlyniad.

**Cwestiwn 15: Mae'r egwyddorion ar eu newydd wedd yn nodi na ddylid cyflwyno rhagor o "gyfyngiadau" i'r setliad datganoli, nac unrhyw faterion newydd i'w cadw yn ôl, fel y nodwyd yn yr egwyddorion gwreiddiol. A fyddai modd i chi amlinellu'r hyn y bwriedir ei gynnwys o ran y cyfyngiadau newydd ar y setliad datganoli presennol?**

Bwriad hyn yw ymdrin â chyfyngiadau posibl y tu hwnt i 'faterion a gedwir yn ôl' yn unig, o ystyried ystyr penodol y term hwnnw yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae ei gynnwys yn enghraifft o un o'r ffyrdd yr ydym wedi ceisio cryfhau cryfder cyfansoddiadol yr egwyddorion.

**Cwestiwn 16: Mae'r egwyddorion ar eu newydd wedd yn cyfeirio at "rôl ystyrlon" Llywodraeth Cymru yn y gwaith o lywodraethu unrhyw gorff trawsffiniol newydd sydd â swyddogaethau sy'n gysylltiedig â materion datganoledig, yn hytrach na datgan bod yn rhaid iddi gael "statws cyfartal" i Lywodraeth y DU, fel sydd wedi'i nodi yn yr egwyddorion gwreiddiol. A fyddai modd i chi amlinellu pam fod y safbwynt hwn wedi newid?**

Mae hyn yn adlewyrchu'r realiti bod gwahanol fathau o gyrff a allai gyd-fynd â'r disgrifiad o gorff trawsffiniol, ac mewn perthynas â rhai, ni fyddai ffurf bur ar "statws cyfartal" i Lywodraeth Cymru o ran llywodraethu yn briodol. Mae'r egwyddor ar ei newydd wedd yn cydnabod, er bod angen ystyried pob achos yn ôl ei amgylchiadau ei hun, fod mesurau diogelu datganoli yn hanfodol.